# Rhaglen Gyflawn

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

Cyfarfod

**IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD LLUN, 7FED RHAGFYR, 2020**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

Pwynt Cyswllt

**Natalie Lloyd jones**
**NatalieLloydJones@Gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 1 Rhagfyr 2020)

# IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Robert G Parry | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Greg Robbins | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Gareth Wyn Griffith | Cyngor Gwynedd |
| Brian Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| David Bithell | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Carolyn Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

## Aelod Cyswllt o’r Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Ian Roberts | Cyngor Sir y Fflint |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Emlyn Jones | Cyngor Sir Ddinbych |
| Huw Percy | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Geraint Edwards | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Darren Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Stephen Jones | Cyngor Sir y Fflint |
| Dafydd Wyn Williams | Cyngor Gwynedd |
| Iwan Prys Jones | Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru |
| Iwan G. Evans | Swyddog Monitro |
| Dafydd L. Edwards | Swyddog Adran 151 |
| Einir Rhian Davies | Swyddog Democratiaeth |
| Natalie Lloyd Jones | Swyddog Democratiaeth |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 5 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar y 14 Medi 2020 fel rhai cywir (ynghlwm).

## 5. MATERION YN CODI

I ystyried materion yn codi o'r cofnodion.

## 6. YMGYNGHORIAD CYD BWYLLGOR CORFFORAETHOL GOGLEDD CYMRU — 8 - 12

Iwan Evans, Swyddog Monitro – Awdurdod Arweiniol, i hysbysu'r Is -Fwrdd o'r ymgynghoriad sydd ar y gweill.

I ddilyn, caiff diweddariad ei gyflwyno gan swyddogion Llywodraeth Cymru.

## 7. DIWEDDARIAD - BYSIAU RHANBARTHOL — 13 - 17

I gyflwyno diweddariad i'r aelodau ar ddatblygiadau diweddar mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer Rhwydwaith Bysiau Rhanbarthol.
I gynnwys cyflwyniad gan Lee Robinson, TfW.

## 8. ADRODDIADAU GWYBODAETH — 18 - 28

(i) Adolygiadau Fflyd Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru, Rhys Horan - Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru.

(ii) Diweddariad ar Gynigion Tanwydd Hydrogen, Iwan Prys Jones - Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

(iii) Llwybr Newydd - strategaeth trafnidiaeth newydd i Gymru,

Iwan Prys Jones - Rheolwr Rhaglen, BUE.

# IS FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH
## 14 Medi 2020

Yn bresennol:

Aelodau â Phleidlais - Y Cynghorwyr:- David Bithell (Cyngor Wrecsam), Robert G Parry (Cyngor Ynys Môn), Greg Robbins (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Gareth Wyn Griffith (Cyngor Gwynedd), Brian Jones (Cyngor Sir Ddinbych) a Carolyn Thomas (Cyngor Sir y Fflint)

Swyddogion yn bresennol – Darren Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Huw Percy (Cyngor Ynys Môn), Geraint Edwards (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy),Stephen Jones (Cyngor Sir y Fflint), Ian Roberts (Cyngor Sir Fflint), Dafydd Wyn Williams (Cyngor Gwynedd), Iwan G Evans (Swyddog Monitro – Awdurdod Arweiniol), Peter Daniels (), Antony Stamford ( ), Sean Traynor ( ) a Lowri Haf Evans (cofnodion – Awdurdod Arweiniol)

Eraill a wahoddwyd - Iwan Prys Jones (Bwrdd Uchelgais Economaidd), Dewi Rowlands (Llywodraeth Cymru), Kemi Adenubi (Trafnidiaeth Cymru)

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Ni dderbyniwyd unrhyw fater brys i'w drafod.

**4. COFNODION**

Derbyniwyd y cofnodion o'r cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar y 17 Chwefror 2020 fel rhai cywir yn ddarostyngedig:

- Eitem 10: *Hydrogen – Tanwydd i'r Dyfodol - edrych ar y dull o brynu cerbydau hydrogen ar y cyd fel rhan o wasanaethau fflyd Awdurdodau Lleol.*

  Nid oedd penderfyniad wedi ei wneud dros ddefnydd un technoleg dros un arall wrth ystyried prynu cerbydau.

- i gywiro enw Peter Davies i Peter Daniels

Cadarnhawyd na fyddai 'materion yn codi' o'r cofnodion yn cael ei drafod yn y cyfarfod yn dilyn eglurhad am drefniadau mewn pwyllgorau. Os am ddiweddariad ar unrhyw fater rhaid sicrhau ei fod yn cael ei gynnwys ar raglen y cyfarfod.

Cynigiwyd ac eiliwyd cynnwys materion yn codi o'r cofnodion ar raglen cyfarfodydd i'r dyfodol. Cylch Gorchwyl yr Is Fwrdd i'w gylchredeg i'r Aelodau Cabinet.

**5. ADOLYGIAD BYSIAU RHANBARTHOL A DIWEDDARIAD BYSIAU**

Cyflwyniad gan Dewi Rowlands - Dirprwy Gyfarwyddwr Strategaeth a Pholisi Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Iwan Prys Jones - Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a mewnbwn gan Kemi Adenubi (Trafnidiaeth Cymru)

**PENDERFYNIAD**

**Derbyn yr adroddiad a gofyn am adroddiad manwl pellach i'r cyfarfod nesaf ar y cysyniad o ffurfio cwmni bysiau rhabarth Gogledd Cymru yn nodi'r opsiynau gan gynnwys y trefniadau llywodraethu posib.**

**TRAFODAETH**

Nodwyd mai pwrpas yr adroddiad oedd rhoi diweddariad i'r aelodau ar ddatblygiadau mewn perthynas â threfniadau llywodraethu a chyllido gwasanaethau bws ynghyd a'r gwaith pellach sydd wedi'i gynllunio ar wasanaethau bws Gogledd Cymru.

Tynnwyd sylw at y tri mater cysylltiedig i'w hystyried:

- Diweddariad ar gynnydd yn sgil cyhoeddi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio'r trefniadau rheoli ar gyfer rhwydweithiau bws.
- Diweddariad ar y cynnydd gyda'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Bysiau Rhanbarthol i'r Gogledd yn dilyn gwaith a gomisiynwyd gan y Bwrdd Uchelgais
- Diweddariad ar y gwaith a wnaed gan Arup ar ran Trafnidiaeth Cymru ar ddatblygu gweledigaeth a strategaeth bysiau ar gyfer Metro Gogledd Cymru

Adroddwyd bod COVID-19 wedi amlygu heriau gyda'r drefn cludo bysiau presennol sydd wedi gweld gostyngiad sydyn a difrifol yn nifer y teithwyr bysiau (tua 90%) ar draws gwasanaethau ers y cyfnod clo. Mae'r niferoedd yn debygol o aros yn isel hyd y gellir rhagweld newidiadau i ganllawiau pellhau cymdeithasol sydd yn cyfyngu ar gapasiti yn ogystal ag awydd y cyhoedd i deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Nodwyd bod yr argyfwng yn gyfle i newid y ddarpariaeth gyda'r pandemig wedi tynnu sylw at wytnwch gwael a gwendidau cynhenid yn y system bresennol. Ategwyd bod y fframwaith ddeddfwriaethol bresennol yn gyfrifol am ddiffyg cyd-ddarpariaeth

Ystyriwyd newid y model ar gyfer y rhwydwaith bysiau yng Nghymru gan sicrhau deilliannau effeithiol fyddai'n ymateb i'r angen. Pwysleisiwyd bod cydweithio gyda'r Awdurdodau yn hanfodol i wella'r gwasanaeth. Nodwyd bod gwaith y cael ei wneud i addasu rhan 3 o'r Bil Bysiau (ffrwd ariannu i gyflawni safonau) fel bod ystod gwell o offer ar gael i Awdurdodau Lleol i'w defnyddio wrth gynllunio a darparu gwasanaethau bysiau lleol yn eu hardaloedd.

Ategwyd y byddai'r Strategaeth Trafnidiaeth Cyhoeddus - 'Gwasanaethau Lleol, Gweledigaeth Genedlaethol' yn mynd allan am ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Tachwedd 2020 gyda bwriad o gyflwyno i'r Senedd ym mis Mawrth 2021. Y bwriad yw cyflwyno strategaeth ddrafft gan ymgysylltu gydag Awdurdodau Lleol i sicrhau bod gwasanaeth addas ar gyfer unigolion a chymunedau yn cael ei ddatblygu.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Croesawu'r wybodaeth a gyflwynwyd
- O ystyried bod y rhwydwaith wedi ei rannu i ranbarthau gydag amryw o awdurdodau lleol yn rheoli o fewn y rhanbarthau - y sefyllfa yn un cymhleth ac anodd fyddai cael 'un corff yn rheoli'
- Angen denu unigolion actif - bod y rhwydwaith yn cynnig cysylltiadau da i feicwyr a defnyddwyr beiciau trydan
- Bod cyfathrebu ac ymgysylltu clir yn hanfodol

- Bod yr adroddiad wedi ei lunio cyn dyfodiad covid - manylion a gwybodaeth ddefnyddiol a da wedi ei cynnwys ac er y pandemig yr un yw'r nod - cael rhwydwaith sydd yn cyflawni gwelliant
- Bod cydweithio gyda phartneriaid yn hanfodol - llais hafal i bawb er mwyn sicrhau bod adnoddau cronnus ar gael i gyflawni
- Bod awgrym i redeg cwmni bysiau ar lefel awdurdod lleol i'w groesawu
- Awgrym y gall Gogledd Cymru, fel rhanbarth, gyflwyno pecyn i redeg cwmni bysiau. Cyfle da i gydweithio. Trefniadau llywodraethu eisoes wedi ei sefydlu. Arbenigedd, sgiliau a gwybodaeth ar gael.

Mewn ymateb i'r awgrym, nodwyd y byddai hyn yn fater i'w groesawu ac y byddai budd o weld awdurdodau yn cefnogi ei gilydd gyda chais am gynllun ffurfiol yn ei le erbyn Gorffennaf 2021.

Cynigiwyd ac eiliwyd i Ogledd Cymru ffurfio Cwmni Bysiau

Mewn ymateb nododd yr Aelodau Cabinet eu bod yn derbyn yr awgrym gan gytuno,

- bod angen mwy o fanylion ynglŷn â sut y byddai yn gweithio
- bod angen system effeithiol i'r Gogledd – un fyddai'n cael ei rheoli gan bobl sydd yn lleol i Ogledd Cymru - profiad a gwybodaeth leol yn hanfodol
- bod angen adroddiad ar faterion llywodraethu Cyd-bwyllgor Corfforaethol

## 6. DIWEDDARIAD AR GROWTH TRACK 360

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Ian Roberts– Cyngor Sir y Fflint.

**PENDERFYNIAD**

**PENDERFYNWYD derbyn y wybodaeth**

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd diweddariad manwl ar y gwaith ar cynigion sydd i'w hystyried. O ganlyniad i'r gostyngiad sylweddol yn nifer y teithwyr yn ystod y cyfnod clo, amlygwyd bod rhaid ystyried ffyrdd newydd o weithio gan sicrhau bod y cynlluniau yn addas i bwrpas. Pwysleisiwyd, os na ellid sicrhau mynediad at drenau cyflym, bydd hyn yn anfantais sylweddol i Ogledd Cymru.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd bod y wybodaeth yn drylwyr ac yn cynnwys nifer o faterion cadarnhaol
- Bod angen gwell eglurhad a dealltwriaeth o'r mathau o drenau fydd yn cael eu defnyddio
- Pryder nad yw Gogledd Cymru yn rhan o drafodaethau ar gyfyngiad mewn nifer y teithiau i mewn i Fanceinion - o ganlyniad, Gogledd Cymru yn debygol o golli allan ar wasanaethau i'r Maes Awyr ac i Orsaf Piccadilly
- Bod rhaid cael gwell adnoddau yng Nghaer os am gael mwy o drenau ar draws Gogledd Cymru
- Bod angen ychwanegu gwydnwch i'r rhestr – llifogydd a thirlithriadau rheolaidd yn achosi problemau mewn rhai ardaloedd

Dechreuodd y cyfarfod am 9:30am a daeth i ben am 11:20am.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AR GYFER:** | **IS-FWRDD CYFLAWNI TRAFNIDIAETH** |
| **DYDDIAD:** | 7 Rhagfyr 2020 |
| **TEITL:** | **Ymgynghoriad Cyd Bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru** |
| **DIBEN:** | I hysbysu'r Is –Fwrdd o'r ymgynghoriad sydd ar y gweill |
| **ARGYMHELLIAD:** | Er Gwybodaeth |
| **AWDUR:** | Iwan Evans - Swyddog Monitro |

**1. Ymgynghoriad Cyd Bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru.**

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar hyn o bryd ar gynigion i sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforedig mewn 4 ardal o Gymru.

Mae Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau( Cymru) 2019 yn cynnwys darpariaethau sydd yn rhoi hawl i greu Cyd Bwyllgorau Corfforedig drwy Offeryn Statudol. Mae'r ymgynghoriad presennol ar sefydlu Cyd Bwyllgorau Corfforaethol ar sail ôl Troed; Gogledd Cymru , Canolbarth Cymru, De Orllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar y 4ydd o Ionawr 2021.

Mae'r ymgynghoriad presennol ynglŷn a'r Offerynnau Statudol ar gyfer sefydlu y pedwar Cyd Bwyllgorau Corfforedig penodol. Fodd bynnag mae bwriad hefyd gan y Llywodraeth i gyhoeddi Offeryn Statudol Cyffredinol sydd yn cael ei grybwyll a'i ddisgrifio yn yr ymgynghoriad gyda bwriad y bydd manylion ynglŷn a llywodraethu yn cael eu cynnwys yn y rheolau yma. Golygai hyn fod elfennau or' ymateb yn ddarostyngedig i gynnwys y rhain. **Mae'r crynodeb isod yn adlewyrchu y model sydd yn destun yr ymgynghoriad ac mae cyfeiriad at y rheoliadau yn golygu y rheoliadau drafft.**

https://llyw.cymru/rheoliadau-i-sefydlu-cyd-bwyllgorau-corfforedig?_ga=2.32838014.1594265796.1605108637-250403614.1603710725

**2. Beth yw Cyd-bwyllgorau Corfforedig?**

> "Yn wahanol i strwythurau Cyd-bwyllgor eraill sy'n bodoli mewn statud, bydd Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn gyrff corfforedig ar wahân a all gyflogi staff, dal asedau a chyllidebau, ac ymgymryd â swyddogaethau. Pan gaiff Cyd-bwyllgor Corfforedig ei sefydlu, caiff swyddogaethau penodol eu breinio ynddo."

Mae 'r model o gyd-weithio drwy Gyd Bwyllgor yn gyfarwydd i lywodraeth leol ac mae sawl esiampl yn weithredol yng Ngogledd Cymru ar sail rhanbarthol ac is ranbarthol. Er yn cael ei ddisgrifio fel Cyd-Bwyllgor mae 'r model newydd yn cynrychioli math newydd o gorff ar gyfer llywodraeth leol ac nid yn unig trefn amgen o ddarparu swyddogaethau. **Tabl Cymharu**

| Cyd Bwyllgor Corfforaethol (CBC) | Cyd-Bwyllgor Deddf Llywodraeth Leol 1972 (CB) |
|---|---|
| Sefydlu drwy offeryn statudol unai drwy fandadu gan y Llywodraeth neu ar gais dau neu fwy o Gynghorau i'r Llywodraeth. | Sefydlu drwy benderfyniad a chytundeb rhwng Cynghorau. |
| Offeryn statudol yn gosod allan y cylch gorchwyl a hawliau penderfynu | Cylch gorchwyl a hwaliau penderfynu yn cael eu sefydlu a dirprwyo drwy gytundeb y Cynghorau sydd yn ei sefydlu |
| Mae ei bwerau yn cael eu diffinio gan yr Offeryn Statudol fydd yn llwyr sefydlu ei hawliau penderfynu a gweithredu. | Mae ei bwerau yn cael eu dirprwyo gan y cynghorau drwy gytundeb. |
| O fewn y Gorchymyn Statudol gall sefydlu ei aelodaeth a chyfetholiadau ei hyn ynghyd a phriodoli hawliau pleidleisio i'r aelodaeth ehangach | Aelodaeth gan gynnwys sgôp cyf-ethol yn cael ei osod gan y Cynghorau sydd yn creu y CB ynghyd a hwaliau pleidleisio o fewn cyfyngiadau statudol |
| Offeryn statudol yn mandadu fod aelodaeth y CBC yn gorfod cynnwys Arweinyddion y Cynghorau ynghyd a chynrychiolwyr eraill. | Mater y Cynghorau yw cytuno ar bwy fydd yn eu cynrychioli ar y Cyd-Bwyllgor |
| Dull o gyllidebu yn cael ei osod drwy Offeryn Statudol | Dull o ariannu yn cael ei gytuno rhwng y Cynghorau ac yn gosod ffiniau gwario neu ymrwymo adnoddau. |
| Endid cyfreithiol sydd yn gallu cytundebu, cyflogi staff a dal eiddo a'g asedau. | Dim yn endid cyfreithiol a felly yn ddibynnol ar gytundebu Cyngor neu Awdurdod i weithredu rôl endid cyfreithiol ar ei ran er dal asedau neu cyflogi staff, |
| Elfennau o'r Strwythur Staffio yn cael ei fandadu gan Offeryn Statudol | Mater i'r Cynghorau yw sefydlu y strwythur ac anghenion staffio unai drwy benderfynu yn eu cytundeb cyd-weithio neu drwy ddirprwyo strwythur i'r Cyd Bwyllgor benderfynu. |
| Sefydlu ei drefniadau Craffu ac Archwilio penodol ei hyn | Yn ddarostyngedig i drefniadau Craffu ac Archwilio y Cynghorau. Gall y Cynghorau sefydlu trefniadau ar y cyd. |

**3. Beth fyddai ei gyfrifoldebau**

Yn ôl Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau ( Cymru ) 2019 mae dau gategori o CBC:

**A. CBC Drwy Orchymyn**

CBC all y Gweinidog sefydlu heb gais gan Gynghorau. Cyfyngir y meysydd posib ar gyfer CBC o'r fath i 4 maes sef:

“ (a) swyddogaeth y prif gynghorau ar gyfer yr ardaloedd perthnasol sy’n ymwneud ag—

(i) gwella addysg;

(ii) trafnidiaeth;

y swyddogaeth o lunio cynllun datblygu strategol .............

y swyddogaeth llesiant economaidd.”

**B. CBC Drwy Gais**

CBC all dau neu fwy o Gynghorau wneud cais i’r Gweinidog wneud gorchymyn yn sefydlu CBC ar gyfer eu hardaloedd ynglŷn ag unrhyw un o’u swyddogaethau neu u swyddogaeth llesiant economaidd.

Mae’r ymgynghoriad ynglŷn a sefydlu CBC ar gyfer Gogledd Cymru yn rhoi 3 swyddogaeth i’r CBC:

(a) “Mae’r swyddogaeth o ddatblygu polisïau o dan adran 108(1)(a) a (2A)(a) o Ran 2 o Ddeddf Trafnidiaeth 2000 (“Deddf 2000”), mewn cysylltiad ag ardal pob cyngor cyfansoddol, i’w harfer gan CBC y Gogledd, ac nid gan y cynghorau cyfansoddol. “ – Golygai hyn y bydd gan y CBC gyfrifoldeb am sefydlu a **Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol**.

(b) y swyddogaeth o lunio **Cynllun Datblygu Strategol** ar gyfer Gogledd Cymru.

(c) y swyddogaeth **llesiant economaidd**.”

Mae’r Gorchymyn drafft yn rhoi pŵer i weithredu er lles economaidd y rhanbarth yn nwylo’r CBC ond nid yw yn tynnu swyddogaethau cyffelyb oddi wrth y Cynghorau. Fodd bynnag er enghraifft mae’r ymgynghoriadau ar y Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yn rhagdybio rôl ganolog i’r CBC. Felly, er mai pŵer sydd yn cael ei roi i’r CBC gall fod disgwyliad ei fod yn weithredol yn y maes ..

**4. Pwerau**

O fewn eu cylch gorchwyl mae gan y CBC hawliau cysylltiedig i wneud yr hyn sydd yn hwyluso cyflawni eu swyddogaethau gan gynnwys yn benodol; mynd i wariant , codi ffioedd, caffael neu waredu eiddo neu hawliau. Ni ganiateir i CBC fenthyg.

Yn ôl yr ymgynghoriad y bwriad fyddai ymdrin a CBC fel “corff cyhoeddus “ fyddai yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cyffredinol dan e.e; Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol ( Cymru ) 2015, Deddf Cydraddoldeb 2010, Safonau Iaith.

**5. Aelodaeth**

- 6 Arweinydd Cynghorau Gogledd Cymru
- Aelod wedi ei benodi gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ond dim ond ar gyfer materion Cynllun Datblygu Strategol.
- Aelodau cyfetholedig wedi eu penodi gan yr Arweinyddion. Gallent fod a phleidlais ond ni all nifer y pleidleisiau y gall Aelodau Cyfetholedig fod yn fwy na phleidleisiau y Arweinwyr ( ynghyd ag aelod APCE ar faterion Cynllun Datblygu Strategol) Gellir gosod tymor ar eu penodiad neu penodi am dymor amhenodol yn ddarostyngedig i hawl i ddiddymu’r penodiad.

**6. Cyllid ac Ariannu**

Mae’n ofynnol i’r CBC gyfrifo cyfanswm cyfanredol sydd yn amcangyfrif ei anghenion gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol ynghyd a darparu symiau wrth gefn ar gyfer y flwyddyn a’r blynyddoedd

i ddod. Rhai hefyd cyfrifo y symiau bydd yn ei dderbyn o ffynonellau heblaw y cynghorau ‘a APCE. Rhaid gwneud hyn o fewn dau fis o’r cyfarfod cyffredinol blynyddol cyntaf ( y cyfarfod cyntaf) ac erbyn 14 Chwefror yn y blynyddoedd canlynol. Wrth bennu swm y gofynion yma rhaid gwahaniaethu rhwng swyddogaethau cynllunio strategol a gweddill ei swyddogaethau.

Mae rhaid i’r cynghorau ( ac yn achos swyddogaethau cynllunio strategol y cynghorau a APCE ) dalu’r swm yma i’r CBC.

Mae rhaniad y cyfraniadau rhwng y cynghorau i’w gytuno drwy benderfyniad unfrydol Arweinyddion. Yn achos cyfraniad cynllunio strategol mae’r cytundeb yma i’w gyrraedd rhwng aelodau cyngor ac aelod Eryri. Os na ellir cyrraedd cytundeb grymusir Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd yn pennu’r rhaniad.

**7. Llywodraethu**

Amlygir rhai materion penodol o’r cyfansoddiad sydd yn y Rheoliadau ond mae angen pwysleisio fod y Rheoliadau Cyffredinol yn mynd i ddarparu manylion sydd yn allweddol i ddeall sut y bydd y darpariaethau yma yn gweithredu.

**Cyfarfodydd**

Rhaid penodi Cadeirydd ac Is Gadeirydd o blith yr Arweinyddion

Cworwm o 70% o aelodau a phleidlais ynghyd a’r Cadeirydd (dylai gynnwys yr Is gadeirydd hefyd)

Dim pleidlais fwrw heblaw mewn materion cynllunio strategol. Heblaw rhai materion penodol pleidlais fwyafrif syml . Gellir mabwysiadu trefn bleidleisio agen gyda cyd syniad yr aelodau pleidleisio i gyd.

**Is bwyllgorau**

Caniateir i’r CBC sefydlu Is Bwyllgorau a dirprwyo unrhyw un o’i swyddogaethau iddo. Gall benodi unrhyw berson i’r Is Bwyllgor ( heblaw yn achos swyddogaethau cynllunio strategol ble mae rhaid penodi aelod Eryri)

**Rheolau Sefydlog a Chod Ymddygiad**

Rhaid i’r CBC fabwysiadu rheolau sefydlog ynghyd a Chodau Ymddygiad ar gyfer aelodau a staff .

**Craffu ac Archwilio**

Mae’n ofynnol i’r CBC sefydlu ei IS Bwyllgorau Craffu ac Llywoddraethiant ac Archwilio. Mae eu swyddogaethau yn adlewyrchu swyddogaethau cyffelyb i Bwyllgorau Craffu ac Archwilio y Cyngor.

**8. Staffio**

Caiff y CBC gyflogi staff a trefnu secondiadau o staff gyda CBC’s eraill a’r sector gyhoeddus yng Nghymru. Mae’n ofynnol dan y rheoliadau i’r CBC benodi swyddogion i’r rolau canlynol:

(a) Prif Weithredwr,
(b) Swyddog Monitro,
(c) Prif Swyddog Ariannol,
(d) Prif Swyddog Llywodraethiant,

**9. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol penodol.

**10 . GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

Fel y nodir yn yr adroddiad

**11. GOBLYGIADAU STAFFIO**

Dim ar hyn o bryd.

**12. EFFAITH AR GYDRADDOLDEB**

Dim ar hyn o bryd.

**13. YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD**

. Dim perthnasol

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

Awdur yr adroddiad.

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

Nodaf yn rhan 6 o'r adroddiad fod disgrifiad o ddisgwyliadau Cyllid ac Ariannu. Byddai'n ddyrys ceisio casglu unrhyw swm ychwanegol gan y cynghorau i'r CBC ar ganol y flwyddyn ariannol 2021/22. Ymhellach, byddai 14 Chwefror yn rhy hwyr i hysbysu'r cynghorau o'i cyfraniadau ar gyfer y blynyddoedd ariannol canlynol. Yn ymarferol, mi fydd raid trafod hyn yn ystod pob hydref cyn y blynyddoedd ariannol, er mwyn galluogi'r cyrff ariannu i ddarparu'n briodol yn eu cyllidebau hwy.

**ADRODDIAD I'R IS-GRŴP CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

**DYDDIAD: 7 Rhagfyr 2020**

**Teitl:** *Diweddariad Bysiau Rhanbarthol*

**Awdur:** Iwan Prys Jones - Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

Diweddaru'r Aelodau ar ddatblygiadau diweddar mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer Rhwydwaith Bysiau Rhanbarthol a chyda chyllid parhad y Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau mewn perthynas ag effeithiau pandemig Covid 19.

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

Gwahoddir yr Aelodau i nodi'r diweddariad a'r cynigion ar gyfer y gwaith pellach sydd wedi'i gynllunio.

Hefyd, gofynnir i aelodau nodi y bydd angen trafodaeth bellach mewn perthynas â rheoli cynllun ariannu BES 2 a chyflawni prosiectau ar sail ranbarthol.

3. **Rhesymau dros y Penderfyniad**

Mae'r adroddiad er gwybodaeth yn bennaf, i gynghori'r aelodau am ddatblygiadau gyda datblygu isadeiledd a phrosiect i gefnogi trafnidiaeth carbon isel a dim carbon.

Nid oes angen penderfyniad ffurfiol o ganlyniad i'r adroddiad, fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen ystyriaeth bellach i rai o'r cynigion newydd sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun ymhen amser.

**4 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

Mae'r aelodau wedi derbyn adroddiadau mewn cyfarfodydd diweddar ynghylch y newidiadau arfaethedig i reolaeth a chyllid y rhwydwaith bysiau, yn bennaf yn ymwneud ag effeithiau'r gostyngiad mewn defnydd o fysiau o ganlyniad i bandemig Covid 19. Er mwyn cynnal y gwasanaethau bysiau gyhyd â phosib, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gwneud taliadau argyfwng sylweddol i ymdrin â'r gostyngiad mewn defnydd o fysiau a'r golled incwm i weithredwyr. Rheolwyd y gronfa Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau (BES) gyntaf yn llwyddiannus gan dimau trafnidiaeth teithwyr awdurdodau lleol gan weithio gyda Llywodraeth Cymru, Trafnidiaeth Cymru a gweithredwyr. Wrth i'r sefyllfa bresennol barhau fodd bynnag, a defnydd o fysiau heb gynyddu i lefel sy'n gwneud gwasanaethau masnachol yn hyfyw, mae angen pecyn ariannu pellach i atal gostyngiad sylweddol pellach mewn gwasanaethau.

Fe gofia'r aelodau hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi dymuno gallu bod mewn gwell rheolaeth dros ansawdd y rhwydweithiau bysiau a'r ddarpariaeth gwasanaeth ers tro. Cynlluniwyd deddfwriaeth yn nhymor cyfredol y Senedd, ond yn sgil y pandemig nid yw wedi bod yn bosib cwblhau'r gwaith cyfreithiol ac felly mae'r Bil Bysiau arfaethedig wedi'i oedi tan y tymor nesaf. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru, gan weithio drwy Trafnidiaeth Cymru, yn ceisio sicrhau rhai o'r newidiadau arfaethedig i rwydweithiau a gwasanaethau bysiau drwy drefniadau cytundebol, yn gysylltiedig â phecyn ariannu BES 2. Mae trafodaethau manwl wedi'u cynnal gydag awdurdodau lleol drwy ATCO ac mae trafodaethau tebyg ynghylch telerau'r pecyn ariannu arfaethedig ar y gweill gyda gweithredwyr bysiau. Gobeithir y bydd y trafodaethau'n cyrraedd cytundeb ynghylch pecyn ariannu a threfniant cytundebol erbyn diwedd y flwyddyn galendr bresennol.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru wedi comisiynu ARUP i baratoi rhaglen Rhwydwaith Bysiau Cymru Gyfan, a fydd yn cynnwys gwaith pellach ar gyflawn Rhwydwaith Bysiau Rhanbarthol. Mae'r amserlenni sydd wedi'u rhoi i'r gwaith yn dynn o ystyried yr angen i hyn gael ei ddatblygu law yn llaw â'r trefniadau ariannu ar gyfer BES 2.

Bydd y gwaith yn seiliedig ar sefydlu rhai egwyddorion rhwydwaith allweddol, a gaiff eu cymhwyso ar sail Cymru gyfan, ond a all ystyried amgylchiadau lleol. Mewn gwirionedd, bydd hwn yn gynllun sy'n ceisio rheoli rhwydwaith unedig lle mae'r gwasanaethau wedi'u cydlynu gyda'i gilydd ac yn cysylltu â rheilffyrdd a moddau eraill, i ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth teithwyr sydd wedi'i integreiddio'n iawn. Caiff coridorau bysiau a rhwydweithiau lleol strategol eu hadnabod, caiff

isadeiledd ei wella, bydd cefnogaeth i fuddsoddi mewn cerbydau effeithlon, modern a glân, bydd prisiau, tocynnau a gwybodaeth oll yn cael eu hadolygu i gyflawni rhwydwaith cyson, di-dor.
Un cydran allweddol o'r newidiadau arfaethedig fydd ystyried trefniadau llywodraethu ac ariannu a fydd yn cyflawni ymagwedd effeithlon a hyblyg i reoli rhwydweithiau. Rhai o'r prif faterion y mae'r dull hwn yn ceisio'u newid yw darparu gwell eglurder ynghylch cyllid refeniw a chyfalaf hir-dymor, lleihau cymhlethdod mecanweithiau a dulliau ariannu cyfredol a darparu arweiniad clir i gyflawni'r weledigaeth, gan gynnal gallu cymunedau lleol i siapio eu rhwydweithiau.

Rhoddir diweddariad ar gynnydd gyda'r cynllun BES 2 a'r gwaith ar y rhwydwaith bysiau yn y cyfarfod.

**5. Ystyriaethau**

Mae'r pandemig wedi arwain at heriau sylweddol i'r diwydiant bysiau o ganlyniad i'r gostyngiad mewn defnydd a chadw pellter cymdeithasol. Heb gyllid ychwanegol sylweddol drwy Lywodraeth Cymru, byddai nifer o wasanaethau bysiau yn cael eu hatal ac mae'n debygol y byddai gweithredwyr wedi wynebu problemau ariannol sylweddol. Ar hyn o bryd, nid oes fawr ddim arwydd ynghylch beth fydd effaith hir-dymor y pandemig ar ddefnydd o fysiau ac nid yw'n glir a fydd defnydd o fysiau yn cynyddu i'r lefelau blaenorol.

Fodd bynnag, mae'r sefyllfa gyfredol yn cynnig cyfle i adolygu a newid y status quo blaenorol, gan wneud addasiadau a allai gyflawni gwelliannau hir-dymor i'r gwasanaeth, os cânt eu rheoli'n effeithiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol i gefnogi'r diwydiant yn ystod yr anawsterau presennol ond mae'n edrych i mewn i fecanweithiau i sicrhau newid hir-dymor i rwydweithiau bysiau a dulliau gweithredu, er mwyn cefnogi cyflawni rhwydweithiau trafnidiaeth sydd wedi'u hintegreiddio'n well.

Bydd gan y cynigion am drefniadau rheoli mwy effeithiol effeithiau ar lywodraethu a rheoli rhwydweithiau bysiau yn y Gogledd. Er bod peth cydlynu rhanbarthol o gynlluniau ariannu bysiau, gyda Sir y Fflint yn gweithredu fel yr awdurdod arweiniol, mae pob awdurdod lleol yn caffael gwasanaethau bysiau yn annibynnol ar hyn o bryd. Mae'n debygol y bydd angen rheoli'r cynllun BES 2 a chyflawni'r rhwydwaith rhanbarthol yn y dyfodol ar lefel ranbarthol a bydd angen cydweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru.

Bydd yr aelodau'n derbyn diweddariad ar gynnydd gyda chynigion Llywodraeth Cymru i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig, fodd bynnag, bydd peth amser hyd nes bydd y ddeddfwriaeth hon wedi'i deddfu. Yn y cyfamser, bydd angen ystyried trefniadau cydweithio posib i gyflawni cynllun BES 2 a'r ymgysylltu ar y rhwydwaith bysiau rhanbarthol a'r dull gweithredu.

**5. Goblygiadau Ariannol**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol penodol o’r adroddiad hwn, mae'n wybodaeth yn bennaf am waith sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd mewn perthynas â'r Cynllun Brys ar gyfer y Sector Bysiau a'r dull rhwydwaith bysiau rhanbarthol newydd.

Mae'n ddigon posib y bydd effeithiau'r cynigion hyn, wedi iddynt gael eu mabwysiadu, yn cael effeithiau ariannol arwyddocaol; fodd bynnag, tynnir sylw at y rhain mewn adroddiadau diweddaru yn y dyfodol neu yn ystod yr ymgynghoriad y dylid ei gynnal cyn gweithredu.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol o’r adroddiad hwn. Bydd angen ystyried trefniadau rheoli a llywodraethu ar gyfer cyflawni'r cynllun BES 2.

**7. Goblygiadau Staffio**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau staffio penodol ar y cam hwn - mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae'n debygol y gall unrhyw ddulliau cytûn i reoli cyllid neu rwydweithiau bysiau ar sail ranbarthol gael goblygiadau ar staffio o fewn timau bysiau presennol.

**8. Effaith ar Gydraddoldeb**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cydraddoldeb penodol ar y cam hwn - mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

**9. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

Nid oes angen unrhyw ymgynghori penodol ar y cam hwn - mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - corff atebol:**

**ii. Pennaeth Cyllid - corff atebol:**

iii.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD GWYBODAETH I'R IS-GRŴP CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

**7 RHAGFYR 2020**

**Teitl:** *Adolygiadau Fflyd Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru*

**Awdur:** Rhys Horan (Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru)

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

Mae'r adroddiad gwybodaeth hwn yn rhoi diweddariad ar waith cyfredol ledled y rhanbarth gan edrych ar sut ellir trosglwyddo fflyd y sector cyhoeddus i fod yn fflyd allyriadau tra isel.

## 2. Y Penderfyniad a Geisir

Dim penderfyniad

## 3 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o weithgareddau parhaus ledled y rhanbarth i gefnogi awdurdodau lleol a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus i gyflymu'r trosglwyddiad o fflydoedd cerbydau petrol a disel i gerbydau allyriadau tra isel (ULEV). O fewn Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel, mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer datgarboneiddio fflyd y sector cyhoeddus. Y flaenoriaeth allweddol yw:

*Cynnig 4 - bydd gan holl geir a cherbydau nwyddau ysgafn newydd yn fflyd y sector cyhoeddus allyriadau tra isel erbyn 2025, a lle bo hynny'n ymarferol bosib, bydd pob cerbyd trwm yn rhai allyriadau tra isel erbyn 2030.*

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi'i gomisiynu i gefnogi adolygiadau ledled y Gogledd a de-orllewin Cymru. Mae cyllid pellach wedi'i sicrhau i gefnogi adolygiadau ledled gweddill rhannau Cymru (ymgymerwyd ag adolygiadau peilot yn rhanbarth Gwent yn ystod 2019-20).

Mae saith corff sector cyhoeddus yn y Gogledd yn cymryd rhan yn y rownd gyfredol o adolygiadau. Mae'r rhain yn cynnwys pob un o'r chwe awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae sefydliadau Cymru gyfan hefyd yn derbyn cefnogaeth e.e. Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ac ati.
Bydd yr adolygiadau yn edrych ar gerbydau fflyd gan gynnwys ceir (mewn perchnogaeth, ar les, wedi'u hurio ac ati), cerbydau masnachol ysgafn, cerbydau masnachol trwm, bysiau mini a fflyd llwyd. Mae prosiect cydamserol sydd ar y gweill drwy dîm Effeithlonrwydd Adnoddau ac Economi Gylchol Llywodraeth Cymru yn archwilio'r potensial i dreialu cerbydau casglu sbwriel trydan (RCV) ledled Cymru. Mae sawl awdurdod lleol eisoes wedi cymryd rhan yn y

prosiect RCV hwn. Mae'r ddau dîm - RCV a'r adolygiad o fflydoedd y sector cyhoeddus - yn cyfathrebu i sicrhau bod unrhyw synergeddau yn cael eu hadnabod.

Bydd yr adolygiadau fflyd sector cyhoeddus yn archwilio Cost Oes Gyfan prynu cerbyd allyriadau tra isel. Gall y gost gyfalaf uwch ymlaen llaw fod yn rhwystr i gymryd rhan ond gall ystyried y gost oes gyfan gefnogi'r broses o wneud penderfyniad. Dangosodd y gwaith a wnaed yn rhanbarth Gwent arbediad cost tanwydd nodweddiadol o 75% dros oes y cerbydau wrth symud o betrol a disel i drydan batri. Yn ogystal, rhagamcanir bod arbediad cynnal a chadw yn gysylltiedig â'r trawsnewid hwn.

**Statws cyfredol y gwaith**

Mae bob un o'r chwe awdurdod lleol wedi ymgysylltu'n dda â'r prosiect ac mae data sylweddol wedi'i gyflenwi ar gyfer dadansoddiad. Unwaith y bydd yr holl ddata wedi'i ddarparu, bydd dadansoddiad o'r data yn digwydd cyn i adroddiad drafft o ganfyddiadau a sesiwn di-briffio gyda phob awdurdod lleol ddigwydd i rannu'r prif ganfyddiadau a'r argymhellion.

| *Awdurdod Lleol* | *Cychwyn y Prosiect* | *Data Llawn wedi'i Dderbyn* | *Adroddiad wedi'i Gyhoeddi* | *Di-briff i Ariannwr y Prosiect / tîm* |
|---|---|---|---|---|
| Ynys Môn | Ydy | Do | I'W GADARNHAU | Ion/Chwef 2021 |
| Conwy | Ydy | I'w gwblhau | I'W GADARNHAU | Ion/Chwef 2021 |
| Sir Ddinbych | Ydy | Do | I'W GADARNHAU | Ion/Chwef 2021 |
| Gwynedd | Ydy | I'w gwblhau | I'W GADARNHAU | Ion/Chwef 2021 |
| Sir y Fflint | Ydy | Do | I'W GADARNHAU | Ion/Chwef 2021 |
| Wrecsam | Ydy | I'w gwblhau | I'W GADARNHAU | Ion/Chwef 2021 |

**Hydrogen**

Tra bo'r cyfleoedd tymor byr uniongyrchol yn debygol o ganolbwyntio ar gerbydau trydan batri, mae dewisiadau eraill megis biomethan a hydrogen. Yng nghyd-destun y Gogledd, mae diddordeb cynyddol wedi bod yn rôl bosib hydrogen o fewn y rhanbarth. Bydd yn bwysig ystyried allbynnau adolygiadau fflyd pob un o'r chwe awdurdod lleol law yn llaw â dyheadau lleol a rhanbarthol o amgylch yr economi hydrogen. Mae swyddogion o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn ymwybodol o'r prosiect hwn.

**Edrych ymlaen**

Unwaith y bydd yr holl adolygiadau wedi'u cwblhau, byddai'n ddarbodus ystyried cyfleoedd cydweithio posib ar gyfer naill ai caffael fflyd a/neu darpariaeth isadeiledd gwefru. Mae'r farchnad gyfredol ar gyfer cerbydau trydan batri yn tyfu'n sylweddol gyda mwy a mwy o geir yn dod ar y farchnad bob blwyddyn, sawl un gydag ystod o dros 200 milltir i bob gwefriad. Mae gwybodaeth am y farchnad hefyd yn awgrymu ystod llawn o faniau trydan batri mawr a chanolig gan bob un o'r Gweithgynhyrchwyr Offer Gwreiddiol (OEMs) mawr sy'n dod i'r farchnad ynghyd ag ystod llawn o HGVs gan DAF, Scania a Volvo/Renault erbyn diwedd 2021.

**Cyflwyniad i'r Is-grŵp Trafnidiaeth**

Unwaith y bydd yr holl adolygiadau wedi'u cwblhau, gellir cyflwyno crynodeb lefel uchel o ddarganfyddiadau o ledled y rhanbarth i'r Is-grŵp pe byddai'r aelodau'n gweld hyn yn fuddiol.

**ADRODDIAD GWYBODAETH I'R IS-GRŴP CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

**DYDDIAD: 7 Rhagfyr 2020**

**Teitl:** *Diweddariad ar Gynigion Tanwydd Hydrogen*

**Awdur:** Iwan Prys Jones - Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

Diweddaru'r Aelodau ar y cynnydd gyda datblygu cynigion prosiect ar gyfer prosiectau trafnidiaeth carbon isel a dim carbon yn y Gogledd.

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

Gwahoddir yr Aelodau i nodi'r diweddariad a'r cynigion ar gyfer y camau nesaf.

3. **Rhesymau dros y Penderfyniad**

Mae'r adroddiad er gwybodaeth yn bennaf, i gynghori'r aelodau am ddatblygiadau gyda datblygu isadeiledd a phrosiect i gefnogi trafnidiaeth carbon isel a dim carbon.

Nid oes angen penderfyniad ffurfiol o ganlyniad i'r adroddiad.

**4 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

Ym mis Ebrill 2020, cwblhawyd adroddiad ar y potensial am rwydwaith trafnidiaeth tanwydd hydrogen, gyda'r hydrogen yn cael ei gyflenwi gan drydan a gynhyrchir o ynni adnewyddadwy. Roedd yr adroddiad yn rhan o gyfres o astudiaethau a ariannwyd gan Byw'n Smart Llywodraeth Cymru, i bennu cyfleoedd ar gyfer arloesedd ynni a lleihau carbon yn y dyfodol yng Ngogledd Cymru.

Roedd yr adroddiad hwn yn cynnwys cyfres o gyfleoedd posib, a allai gynnig prosiect arloesol a fyddai'n trawsffurfio lefel yr allyriadau carbon sy'n dod o drafnidiaeth yn yr ardal, os cânt eu datblygu fel rhan o brosiect integredig.

Cynigiwyd ystyried dwy ardal.

**Glannau Dyfrdwy**

Mae ardal Glannau Dyfrdwy eisoes yn ddarostyngedig i ostyngiadau mewn cyfyngiadau cyflymder ar ffyrdd strategol, fel rhan o'r ymdrech i gyfyngu lefelau anniogel o ansawdd aer gwael.

Mae'r opsiynau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yn cynnwys: -

- **Hwb Hydrogen yng Nglannau Dyfrdwy** a fyddai'n cynnwys cyfleusterau cynhyrchu hydrogen, storio ac isadeiledd tanwydd. Yn ogystal, mae'r prosiect yn cynnig opsiwn tymor-hwy ar gyfer rhwydweithiau trawsyriant a allai rychwantu'r Gogledd.

- Cyfleoedd i leihau allyriadau carbon o gerbydau ym mherchnogaeth awdurdodau lleol a rhwydweithiau bysiau wedi'u cefnogi, drwy gaffael cerbydau hydrogen ar y cyd, a gyflenwir o'r hwb hydrogen.

- Cyfleoedd partneriaeth i weithio gyda defnyddwyr cerbydau nwyddau trwm yn ardal Glannau Dyfrdwy i ddatblygu a chaffael cerbydau hydrogen ar y cyd gan gefnogi'r busnesau yn yr ardal.

Yn dilyn yr adroddiad, mae cyfleoedd eraill wedi codi yn cynnwys y potensial i gysylltu â'r prosiect Hynet yng ngogledd-orllewin Lloegr, cysylltiadau posib â phrosiectau ynni adnewyddadwy megis Cynllun RWE Awel y Môr a chynigion pŵer llanw Porthladd Mostyn.

Mae'r potensial am hwb hydrogen wedi derbyn cefnogaeth yn lleol, gyda diddordeb mawr gan bartneriaid posib. Er mwyn datblygu achos busnes am gyllid ymhellach, mae angen astudiaeth ychwanegol, a bydd angen cyllid ar gyfer hyn. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r rhesymeg dros gyllid ychwanegol i ddatblygu cynigion y prosiect i mewn i Achos Amlinellol Strategol.

**Caergybi**

Hefyd, gwnaed gwaith i ystyried cyfleoedd yng Nghaergybi, gyda'r potensial iddynt fod yn gysylltiedig â chynigion i ddatgarboneiddio'r gweithgareddau yn y porthladd. Ystyriwyd dwy agwedd.

Y potensial am brosiect tymor-byr i ystyried defnyddio cerbydau pŵer batri i'w defnyddio ar y llwybrau bysiau lleol yn ardal Caergybi. Mae'r cynnig hwn yn dal i gael ei ystyried, gyda'r potensial am isadeiledd cerbydau a gwefru yn cael ei ystyried am gefnogaeth ariannol.

Yn ail, y potensial am danwydd Hydrogen yn y tymor hwy, i gefnogi gwasanaethau trafnidiaeth lleol a defnyddwyr nwyddau pellter hwy ar hyd coridor yr A55.

Yn fwy diweddar, mae Menter Môn, gan weithio gyda phartneriaid eraill, wedi comisiynu gwaith i adnabod cyfleoedd i gynhyrchu hydrogen yng Nghaergybi. Mae'r prosiect hwn yn gysylltiedig â'r prosiectau arfaethedig sy'n cael eu datblygu yn yr ardal.

## 5. Y Sefyllfa Gyfredol

Mae diddordeb mawr wedi bod yn y ddau gynnig a chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i'r cysyniad o brosiectau carbon isel a dim carbon. Dros yr wythnosau diwethaf, mae peth cyllid wedi bod ar gael gan Lywodraeth Cymru am astudiaethau pellach i gadarnhau'r cynigion a datblygu'r ddau i'r cam achos busnes.

Mae prosiect Glannau Dyfrdwy wedi derbyn cyllid i ddatblygu'r prosiect ac achos busnes yn seiliedig ar ddefnyddio trydan adnewyddadwy i ddatblygu hwb hydrogen yn seiliedig ar electrolysis. Bydd y prosiect hefyd yn ystyried ffynonellau posib eraill o hydrogen yn cynnwys cynigion yn seiliedig ar y prosiect Hynet a phrosiectau posib eraill sydd gerllaw. Yn ogystal, bydd y prosiect yn adolygu'r galw am hydrogen a marchnadoedd posib ar gyfer y tanwydd.

Mae prosiect Caergybi hefyd wedi derbyn cyllid datblygu gan Lywodraeth Cymru. Yn yr achos hwn, mae'r prosiect arfaethedig yn seiliedig ar gynhyrchu hydrogen o broses gynhyrchu driphlyg, yn bennaf gan ddefnyddio nwy i gynhyrchu hydrogen.

Felly, bydd y ddau brosiect yn arfarnu gwahanol dechnolegau i gynhyrchu hydrogen carbon isel. Fodd bynnag, dim ond un rhan o'r prosiect yw cyflenwi hydrogen. Er mwyn sicrhau bod marchnad ar gyfer y tanwydd, bydd angen symbylu'r galw am hydrogen. Mae nifer y cerbydau sydd ar gael ar hyn o bryd ar y farchnad yn gymharol isel. Mae problem hefyd gan fod hydrogen a gynhyrchir o ffynonellau adnewyddadwy yn gyffredinol ddrytach na thanwydd a brydir gan gyflenwyr diwydiannol. Oni bai y cymerir camau i dyfu'r pwll o gerbydau sy'n medru defnyddio'r tanwydd, gall y capasiti cynhyrchu ei chael hi'n anodd dod o hyd i farchnad.

Law yn llaw â'r cynigion i ddatblygu capasiti cynhyrchu, mae angen cael proses ar y cyd i symbylu datblygiad cerbydau hydrogen. Gall caffael fflyd y sector cyhoeddus chwarae rôl sylweddol fan hyn. Felly, bydd y prosiectau yn ceisio ystyried ac arfarnu mathau penodol o gerbydau megis RCV, faniau 'transit', wagenni tipio ac ati, er mwyn deall a oes sgôp ar gyfer caffael ar y cyd ymhlith cyrff cyhoeddus y gellir ei ddefnyddio i symbylu gweithgynhyrchu'r cerbydau hyn.

Byddai'n ddefnyddiol deall yr archwaeth am gynnig caffael ar y cyd o'r fath gan yr Aelodau.

Cynhaliwyd trafodaethau cadarnhaol gydag awdurdodau ledled Cymru ac yng ngogledd-orllewin Lloegr i ddeall a ellir datblygu prosiect ar raddfa fawr ar hyd y llinellau hyn.

Rhagwelir y bydd allbynnau'r ddau brosiect ar gael yn gynnar yn 2021.

**5. Goblygiadau Ariannol**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol penodol o'r adroddiad hwn; gwybodaeth am waith arfaethedig yn dilyn cadarnhad o gyllid gan Lywodraeth Cymru ydyw yn bennaf.

Mae'n ddigon posib y bydd effeithiau'r cynigion hyn, wedi iddynt gael eu mabwysiadu, yn cael effeithiau ariannol arwyddocaol; fodd bynnag, tynnir sylw at y rhain mewn adroddiadau diweddaru yn y dyfodol neu yn ystod yr ymgynghoriad y dylid ei gynnal cyn gweithredu.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol o'r adroddiad hwn.

**7. Goblygiadau Staffio**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau staffio penodol ar y cam hwn - mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd.

**8. Effaith ar Gydraddoldeb**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cydraddoldeb penodol ar y cam hwn - mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

**9. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

Nid oes angen unrhyw ymgynghori penodol ar y cam hwn - mae'r adroddiad yn rhoi diweddariadau ar y gwaith sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Cynhelir ymgynghoriad manwl ar unrhyw adroddiadau lle bydd effeithiau'n bosib yn ystod y broses ymgynghori briodol.

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - corff atebol:**

**ii. Pennaeth Cyllid - corff atebol:**

iii.

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

**ADRODDIAD I'R IS-GRŴP CYFLAWNI TRAFNIDIAETH**

**DYDDIAD: 7 Rhagfyr 2020**

**Teitl:** *Llwybr Newydd - strategaeth trafnidiaeth newydd i Gymru*

**Awdur:** Iwan Prys Jones - Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

**1. Pwrpas yr Adroddiad**

Cynghori'r aelodau y cyhoeddwyd Llwybr Newydd, drafft ymgynghorol strategaeth trafnidiaeth newydd i Gymru, ar 17 Tachwedd 2020.

Bydd adroddiad manylach a'r ymateb i'r drafft ymgynghorol yn cael eu paratoi mewn pryd ar gyfer diwedd y cyfnod ymgynghori ar 25 Ionawr 2021

**2. Y Penderfyniad a Geisir**

Gwahoddir yr Aelodau i nodi'r diweddariad a'r cynigion ar gyfer y gwaith pellach sydd wedi'i gynllunio.

3. **Rhesymau dros y Penderfyniad**

Mae'r adroddiad er gwybodaeth yn bennaf, i gynghori'r aelodau bod y drafft ymgynghorol o'r strategaeth wedi'i gyhoeddi ac y bydd ymateb i'r ymgynghoriad yn cael ei baratoi am ymateb gan y Bwrdd Uchelgais.

Nid oes angen penderfyniad ffurfiol o ganlyniad i'r adroddiad, fodd bynnag, mae'n bosib y bydd angen ystyriaeth bellach i rai o'r cynigion newydd sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun ymhen amser.

**4 Cefndir ac Ystyriaethau Perthnasol**

Cyhoeddwyd Strategaeth Trafnidiaeth gyfredol Cymru yn 2008 ac ers hynny mae newidiadau sylweddol wedi bod yn nhermau trafnidiaeth, yn bennaf y pryderon cynyddol ynghylch allyriadau cerbydau a newid hinsawdd. Mae trafnidiaeth yn gyfrannwr sylweddol i allyriadau tŷ gwydr, ac nid yw'r pwyslais cryf ar welliannau yn y cynllun blaenorol yn briodol bellach. Felly, mae paratoi strategaeth trafnidiaeth newydd yn hwyr ac i'w groesawu.

Mae Llwybr Newydd yn ddogfen hanfodol, gan ei bod yn nodi gweledigaeth ar gyfer trafnidiaeth yng Nghymru dros yr 20 mlynedd nesaf. Er bod rhai materion byr-dymor sylweddol yn sgil pandemig Covid 19 sydd wedi cael effaith sylweddol ar drafnidiaeth, yn bennaf cadw pellter cymdeithasol a'r gostyngiad mewn galw am drafnidiaeth teithwyr, mae'r gofyn hir-dymor i ddarparu rhwydweithiau trafnidiaeth carbon isel amgen yn parhau. Yn wir, roedd y gwelliant sylweddol mewn ansawdd aer a bywyd ar strydoedd mewn ardaloedd trefol yn effaith amlwg o'r cyfyngiadau teithio yn ystod cyfnod cynnar y clo.

Hefyd, mae'r strategaeth yn hanfodol i ddeall sut bydd symudedd a thrafnidiaeth yn newid dros y degawdau nesaf, yn arbennig mewn perthynas â chefnogi twf economaidd wrth gefnogi newid ymddygiadau i leihau allyriadau carbon.

Y weledigaeth gyffredinol sydd wedi'i nodi yn y ddogfen yw

Mae system trafnidiaeth hygyrch a chynaliadwy yn un sy'n dda i bobl a chymunedau, yn dda i'r amgylchedd, yn dda i'r economi a llefydd yng Nghymru, ac yn dda i ddiwylliant a'r iaith Gymraeg, gan gyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Cefnogir hyn drwy:

**Blaenoriaeth 1:** lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr drwy gynllunio ymlaen ar gyfer cysylltedd corfforol a digidol gwell, mwy o wasanaethau lleol, mwy o weithio o bell ac o gartref a mwy o deithio llesol, fel bod angen i lai o bobl ddefnyddio eu ceir yn ddyddiol.

Ond lle mae angen i bobl a busnesau deithio, byddwn yn

**Blaenoriaeth 2:** tyfu defnydd o drafnidiaeth cyhoeddus yng Nghymru drwy ddarparu gwasanaethau y gall pawb eu defnyddio, am eu defnyddio ac yn eu defnyddio, yn seiliedig ar:

**Blaenoriaeth 3:** isadeiledd trafnidiaeth diogel, hygyrch, sydd wedi'i gynnal a'i gadw a'i reoli'n dda sydd hefyd wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol i gefnogi trafnidiaeth cyhoeddus a thrydaneiddio yn enwedig cerdded a beicio.
Nid yw'n ddigon cefnogi gwasanaethau ac isadeiledd trafnidiaeth cynaliadwy yn unig. Mae angen i ni yrru newid moddol ac ymddygiadol hefyd drwy:

**Blaenoriaeth 4:** wneud dewisiadau trafnidiaeth cynaliadwy yn fwy deniadol a fforddiadwy i fwy o bobl a busnesau, gan barchu'r ffaith efallai nad oes gan nifer o bobl, yn cynnwys y rheini sydd mewn ardaloedd gwledig neu bobl anabl, unrhyw opsiynau, a

**Blaenoriaeth 5:** chefnogi arloesi sy'n helpu mwy o bobl a busnesau i fabwysiadu dewisiadau trafnidiaeth mwy cynaliadwy.
Yn olaf, mae'r ddogfen ymgynghorol yn cynnig newidiadau mewn sut caiff trafnidiaeth ei reoli a'i gyflawni.

Byddwn yn cyflawni hyn oll drwy ddwyn ein hunain a'n partneriaid i gyfrif, gan fesur nid yn unig berfformiad gwasanaethau trafnidiaeth, ond y gwahaniaeth y mae trafnidiaeth yn ei wneud i bobl a chymunedau, i'r amgylchedd, i'r economi a llefydd, ac i'r diwylliant a'r iaith Gymraeg.

Byddwn yn cyflawni hyn drwy fuddsoddi'n gynaliadwy, drwy gynlluniau gweithredu penodol yn cynnwys ein Llwybr Datgarboneiddio a thrwy weithio mewn partneriaeth, diweddaru ein polisïau a'n canllawiau, adeiladu capasiti a sgiliau a thrwy ddwyn ein hunain ac eraill i gyfrif. Byddwn hefyd yn mabwysiadu'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae naw o gynlluniau bach ar gyfer moddau a sectorau trafnidiaeth yng Nghymru yn gefn i Llwybr Newydd - teithio llesol; bysiau; rheilffyrdd; ffyrdd; strydoedd a pharcio; y trydydd sector; tacsis a cherbydau hurio preifat; nwyddau a logisteg; porthladdoedd a thrafnidiaeth morol; a hedfan.

## 5. Ystyriaethau

Mae hon yn ddogfen ymgynghorol bwysig. O ganlyniad, cynigir paratoi ymateb manwl i'r ymgynghoriad. Caiff hwn ei baratoi ar y cyd gyda chefnogaeth gan y grŵp cefnogi a gellir bwydo sylwadau gan awdurdodau i'r ymateb terfynol.

Y dyddiad cau ar gyfer ymgynghori yw 25 Ionawr 2021.

Gellir cael mynediad i'r ddogfen drwy'r ddolen isod.

https://llyw.cymru/llwybr-newydd

**5. Goblygiadau Ariannol**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau ariannol penodol o’r adroddiad hwn; mae er gwybodaeth yn bennaf ynghylch cyhoeddi drafft ymgynghorol o strategaeth trafnidiaeth newydd.

**6. Goblygiadau Cyfreithiol**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cyfreithiol penodol o’r adroddiad hwn.

**7. Goblygiadau Staffio**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau staffio penodol ar y cam hwn.

**8. Effaith ar Gydraddoldeb**

Ni chyfyd unrhyw oblygiadau cydraddoldeb penodol ar y cam hwn. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â gwerthusiad cynaliadwyedd cychwynnol a gaiff ei adolygu fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad.

**9. Ymgynghoriadau a gynhaliwyd**

Nid oes angen unrhyw ymgynghori penodol ar y cam hwn.

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - corff atebol:**

**ii. Pennaeth Cyllid - corff atebol:**

iii.